



Cronfa Amasthyddol Ewrop ar  
gyfer Datblygu Gwledig  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
European Agricultural Fund for  
Rural Development  
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government


[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Glastir

Glastir Organig

Llyfryn Rheolau 2015

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru –  
Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020





## CYNNWYS

	Rhif y Dudalen
<b>Prif bwyntiau</b>	<b>5</b>
<b>Adran A – Cyflwyniad</b>	<b>7</b>
Safonau Organig	8
<b>Adran B – Pwy sy'n gymwys</b>	<b>9</b>
Ffermwr Actif	9
Cynllun Busnes Organig	12
<b>Adran C - Pa dir sy'n gymwys</b>	<b>12</b>
Mwy nag un yn hawlio ar yr un tir	14
<b>Adran D – Rheolau Glastir Organig</b>	<b>14</b>
Tir mewn cynlluniau eraill	15
<b>Adran E – Ceisio am Glastir Organig</b>	<b>16</b>
Y broses ddewis	
Contract Glastir Organig	
	19
	20
<b>Adran F – Taliadau</b>	<b>21</b>
Diffinio'r Cyfraddau Talu	22
Pwy sy'n gymwys am gyfraddau talu 'troi'n organig'	24
Pwy sy'n gymwys am gyfraddau talu 'cynnal organig'	26

Costau ardystio Corff Rheoli Organig	27
Beth sy'n rhaid imi ei wneud i gael fy nhalu ?	27
<b>Adran G - Newid y Contract</b>	
Trosglwyddo neu Werthu tir o dan gontract	
Beth sy'n digwydd os bydda i'n rhoi'r gorau i ffermio'n organig cyn diwedd fy nghontract?	
<b>Adran H – Rheolaeth Lwyr</b>	<b>30</b>
<b>Adran I – Archwiliadau a Chofnodion</b>	<b>34</b>
	34
	34
<b>Adran J – Cosbau</b>	<b>36</b>
<b>Adran K – Y Drefn Apelio</b>	<b>38</b>
<b>Adran L – Deddf Diogelu Data 1998: Hysbysiad Prosesu Teg</b>	<b>39</b>
<b>Atodiad 1 – Codau Cnydau</b>	<b>42</b>
<b>Atodiad 2 – Enghraifft o Indemniad</b>	<b>43</b>

## Prif bwyntiau

- Elfen o Gynllun Glastir Llywodraeth Cymru yw Glastir Organig. Diben Glastir Organig yw helpu i gynnal ffermwyr a chynhyrchwyr organig sy'n rheoli tir mewn ffordd sy'n dod â manteision amgylcheddol. Mae Glastir Organig yn agored i'r rheini sydd eisoes yn gynhyrchwyr organig a hefyd i'r rheini sydd am droi at gynhyrchu organig, cyn belled â'u bod i gyd yn bodloni'r amodau. Contract 5 mlynedd gyda Llywodraeth Cymru yw Glastir Organig.
- Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Gymru ddigidol, mae ffurflen gais Glastir Organig wedi'i datblygu ar-lein ac mae ar gael trwy wasanaeth Taliadau Gwledig Cymru (RPW) ar-lein.
- Os nad ydych wedi cofrestru gydag RPW Ar-lein eto ac nad ydych wedi cael cod defnyddio, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 **cyn gynted ag y medrwch**. Fe gewch chi'r manylion sydd eu hangen arnoch ganddynt trwy'r post.
- I gael help i lenwi'ch cais Glastir Organig ar-lein, ewch i <http://www.llyw.cymru/rpwarlein> Os nad oes gennych gyswllt band eang neu os hoffech ragor o help, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 **cyn gynted ag y medrwch** i drafod yr help digidol sydd ei angen arnoch a ffyrdd eraill o ymgeisio.
- Bydd cyfnod ymgeisio Glastir Organig 2015 yn dechrau 1 Hydref 2014 ac yn cau ganol nos 29 Hydref 2014.
- Er mwyn gallu cael taliad Glastir Organig, rhaid ichi fod yn Ffermwr Actif – gweler Adran B am ragor o fanylion.
- Bydd gofyn ichi gyflwyno Cynllun Busnes ddim hwyrach na 31 Rhagfyr 2015.
- Pwysig: bydd y broses ar gyfer ymuno â Glastir Organig yn un gystadleuol. Caiff ceisiadau eu hasesu a'u syn unol ag amcanion Glastir Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli eu tir er lles yr amgylchedd.

- Er mwyn gallu bodloni amodau Glastir Organig, rhaid i'r holl dir sydd o dan y contract fod wedi'i ardystio gyda Chorff Rheoli Organig yn ddi-dor am oes y Contract sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2015. Rhaid cyflwyno Tystysgrif a Rhestr Tir ddiweddaraf y Corff Rheoli Organig ddim hwyrach na 30 Ebrill ym mlwyddyn gynta'r contract ac wedi hynny, o fewn 30 diwrnod cyn y daw'r dystysgrif i ben. Os byddwch yn eu cyflwyno wedi'r dyddiadau hyn, byddwch wedi torri rheolau'r cynllun a chaiff eich taliad Glastir Organig ei gosbi. Pwysig: ni chewch daliad os ydym yn disgwyl gweld tystysgrif.
- Mae'n bwysig bod y tir i gyd sy'n dod o dan y contract organig o dan eich rheolaeth lwyr chi dros oes y contract.
- Os oes gennych dir o dan gynllun pontio Ffermio Organig neu Droï'n Organig sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2015, bydd gofyn ichi gyflwyno cais i gael eich ystyried ar gyfer contract Glastir Organig 2015.
- Bydd gofyn ichi gyflwyno Ffurflen Cais Sengl (SAF) bob blwyddyn trwy RPW Ar-lein am oes y contract.
- Fesul Cyfeirnod Cwsmer (CRN), caniateir taliad organig ar hyd at 400 hectar o dir cymwys.
- Cofiwch ateb yn brydlon unrhyw gwestiynau y gallai Llywodraeth Cymru ofyn ichi am eich cais am Glastir Organig. Gallai peidio â gwneud hynny neu oedi cyn gwneud olygu gwrthod cynnig contract Glastir Organig.
- Nid yw'r cynllun Glastir wedi cael ei gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd eto. Gallai'r gymeradwyaeth pan ddaw, hynny olygu y bydd gofyn newid y canllawiau hyn. Cyhoeddir y newidiadau yn Gwlad ([www.gwladarlein.org](http://www.gwladarlein.org)) a lle gwelwn fod angen, byddwn yn cysylltu â ffermwyr yn uniongyrchol.

## Adran A - Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn wedi'i ysgrifennu ar gyfer ffermwyr a chynhyrchwyr sydd am gyflwyno cais i ymuno â Glastir Organig. Nid oes gofyn i ymgeiswyr ymuno ag elfennau eraill Glastir na bod eisoes yn aelodau ohonyn nhw i gael ymgeisio am Glastir Organig.

Mae Glastir Organig yn helpu i gynnal ffermwyr a chynhyrchwyr organig sy'n rheoli tir mewn ffordd sy'n dod â manteision amgylcheddol. Contract 5 mlynedd lawn yw Glastir Organig a thelir amdano ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd fel rhan o Raglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020. Mae Glastir Organig yn agored i'r rheini sydd eisoes yn gynhyrchwyr organig a hefyd i'r rheini sydd am droi at gynhyrchu organig, cyn belled â'u bod i gyd yn bodloni'r amodau. Bydd Glastir Organig yn cyfrannu at wireddu prif amcanion Glastir, sef:

- Lleihau allyriadau Carbon a Nwyon Tŷ Gwydr.
- Addasu i hinsawdd sy'n newid a chryfhau gallu busnesau fferm a choedwigaeth i wrthsefyll ei effeithiau.
- Rheoli ein hadnoddau dŵr i wella ansawdd dŵr a lleihau'r perygl o lifogydd.
- Cyfrannu at wneud ffermydd, coedwigaeth a'r gymuned wledig ehangach yn fwy economaidd gynaliadwy.
- Diogelu'r dirwedd a'r amgylchedd hanesyddol tra'n gwella mynediad ato.
- Cyfrannu at wydroi'r dirwiad ym mioamrywiaeth cynhenid Cymru.

Mae'r Contract hwn wedi'i wneud yn unol â'r Offeryn Statudol Cymreig sy'n ymdrin â Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, Rheoliad (UE) y Cyngor rhif 1305/2013 o'r Senedd ac o'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 ar gefnogaeth i ddatblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD); Rheoliadau Dirprwyedig y Comisiwn (UE) rhif 807/2014, dyddiedig Mawrth 2014 i ategu Rheoliad (UE) rhif 1305/2013 o'r Senedd ac o'r Cyngor ar gefnogaeth i ddatblygu gwledig gan yr EAFRD a Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (CE) rhif 808/2014, dyddiedig 17 Gorffennaf sy'n gosod y rheolau ar gyfer rhoi Rheoliad 1305/2013 o'r Senedd Ewropeaidd ac o'r Cyngor ar gefnogaeth i ddatblygu gwledig gan yr EAFRD ("y rheoliadau"), fel y'u diwygir o dro i dro.

Nid yw cymorth Glastir wedi cael ei gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd eto. Gallai'r gymeradwyaeth pan ddaw olygu ei newid. Cyhoeddir y newidiadau yn Gwlad ([www.gwladarlein.org](http://www.gwladarlein.org)) a lle gwelwn fod angen, byddwn yn cysylltu â ffermwyr yn uniongyrchol.

## **Safonau organig**

Rhaid i unrhyw fwyd sy'n cael ei werthu fel bwyd 'organig' gael ei gynhyrchu yn unol â chyfreithiau Ewrop ar gynhyrchu organig.

Yn ôl y cyfreithiau hyn, mae gofyn i dyfwyr a phroseswyr fod wedi'u cofrestru gyda Chorff Rheoli Organig (OCB) a rhaid i hwnnw fod wedi'i gofrestru a'i awdurdodi gan yr awdurdod yn y DU sydd â chymhwysedd i reoli gweithredwyr organig.

Bydd ffermwyr sy'n cofrestru ag OCB sydd â safonau llymach na rhai cyfraith Ewrop yn gorfod bodloni gofynion penodol yr OCB hwnnw er mwyn cael cofrestru ag ef.



## **Adran B – Pwy sy'n gymwys**

I fod yn gymwys am Glastir Organig:

- Byddwch yn gwsmer cofrestredig gyda Llywodraeth Cymru a byddwch wedi cael Cyfeirnod Cwsmer (CRN)
- Byddwch wedi cofrestru'ch tir ar System Adnabod Parseli Tir Llywodraeth Cymru
- Byddwch yn Ffermwr Actif ar dir amaethyddol. Mae hynny'n golygu cymryd y prawf Ffermwr Actif bob blwyddyn dros oes y contract a'i basio
- Dim ond chi fydd yn hawlio Cymorth Ewropeaidd (e.e. y Taliad Sylfaenol (BPS) a Glastir) ar y tir
- Gofalwch fod eich tir sydd o dan y contract Glastir Organig wedi'i ardystio'n ddi-dor gyda Chorff Rheoli Organig (OCB) am oes y contract, gan ddechrau ar 1 Ionawr 2015
- Bydd gennych o leiaf 3 hectar o dir cymwys
- Bydd gennych Gynllun Busnes Organig neu byddwch yn cyflwyno un i Lywodraeth Cymru ddim hwyrach na 31 Rhagfyr 2015.

### **Ffermwr actif**

Ni chewch gontract Glastir Organig oni bai'ch bod yn pasio'r prawf Ffermwr Actif bob blwyddyn. Bydd y prawf yn rhan o SAF 2015. Gweler Atodiad 3 am fanylion y prawf Ffermwr Actif.

### **Cynllun Busnes Organig**

Rhaid ichi gyflwyno Cynllun Busnes Organig i Lywodraeth Cymru ddim hwyrach na 31 Rhagfyr 2015.

Mae'n bosibl y bydd help ar gael i ymgeiswyr trwy wasanaethau Trosglwyddo Gwybodaeth a Chynghori Llywodraeth Cymru fel rhan o Raglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020. Gallai cynlluniau Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020

gael eu newid tan y caiff y rhaglen gyfan ei chymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Dylai'ch cynllun busnes gynnwys o leiaf y canlynol:

- Cynllun y system ffermio organig, gan gynnwys nifer y da byw a'r cnydau
- Cynllun iechyd y fuches/ddiadell
- Cynllun rheoli tail
- Cynllun cylchdroi cnydau
- Cynllun rheoli plâu a chlefydau cnydau
- Cynllun o ddatblygiadau'r dyfodol

## **Adran C - Pa dir sy'n gymwys**

- Yr holl gaeau sydd wedi'u hardystio gydag OCB cymeradwy ar gyfer 5 mlynedd lawn y contract Glastir Organig
- Yr holl dir y bydd gennych reolaeth lwyr arno sy'n dod o dan eich contract Glastir Organig am oes eich contract Glastir Organig
- Mae Rheolaeth Lwyr fel arfer yn golygu:
  - Bydd y tir yn eiddo ichi ac o dan eich meddiant
  - Tenantiaeth o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995, Tenantiaeth Busnes Fferm neu Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986
  - Trwydded bori
- Dim ond caeau cyfan sy'n gymwys ar gyfer contract Glastir Organig
- Bydd pob cae yng Nghymru
- Bydd unrhyw Dir Comin yn dir pori a dim ond chi fydd â hawliau cofrestredig i bori da byw arno

### **Pa dir sydd ddim yn gymwys ar gyfer Glastir Organig**

- Tir y tu allan i Gymru
- Tir nad yw'n cael ei ddefnyddio at ddiben cynhyrchu amaethyddol
- Tir Comin â mwy nag un porwr
- Coetir heb ei bori
- Caeau sy'n cael eu cyd-bori
- Rhannau o gaeau
- Caeau sy'n cael eu defnyddio gan ymgeisydd arall i hawlio taliadau eraill y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)
- Tir na fydd wedi'i ardystio gydag OCB ar 1 Ionawr 2015
- Nid yw caeau y cynhelir Opsiynau 30 a 32 contract Glastir Sylfaenol arnynt yn gymwys am Gyfradd Dalu 1 Glastir Organig
- Tir y mae ffermwr arall wedi hawlio cymorth trwy gynllun PAC gwahanol arno.

## **Mwy nag un yn Hawlio ar yr un Tir**

Nid oes hawl gan fwy nag un hawlio ar yr un tir (h.y. ni chaiff dau ddefnyddio'r un parcel o dir i hawlio o dan gynlluniau gwahanol PAC yr Undeb Ewropeaidd e.e. y Cynllun Taliad Sylfaenol a Glastir). Y rheswm yw na all tir fod o dan reolaeth lwyr mwy nag un rheolwr tir ar y tro. Os ydych yn landlord neu'n denant sydd am ymuno â Glastir, rydym yn eich cyngori i edrych yn fanwl ar eich tenantiaeth a'ch trefniadau busnes i weld a ydych yn bodloni'r amodau ar gyfer ymuno â'r cynllun.

Am fwy o wybodaeth am hawlio ddwywaith ar yr un tir, ewch i wefan Llywodraeth Cymru <https://llyw.cymru/ffermio-a-chefn-gwlad>

## **Gofynion ardystio**

- Bydd gennych Dystysgrif a Rhestr Tir dilys a chyfoes gan OCB sydd wedi'i gymeradwyo a'i awdurdodi am oes y contract. Ni fydd Llywodraeth Cymru'n gallu'ch talu heb weld tystysgrif OCB ddilys sy'n gyfoes adeg gwneud y taliad.
- Rhaid ichi sicrhau bod tystysgrif a Rhestr Tir dilys a chyfoes yr OCB yn defnyddio'r un Cyfeirnod Map a Rhifau Caeau ag sydd wedi'u cofrestru gyda System Adnabod Parseli Tir (LPIS) Llywodraeth Cymru ac sydd wedi'u cofnodi ar eich Ffurflen Cais Sengl (SAF).
- Rhaid ichi sicrhau bod unrhyw waith e.e. chwistrellu rhedyn o dan gynllun amaeth-amgylcheddol arall, fel elfennau eraill Glastir, yn gyson â rheolau'ch Corff Rheoli Organig. O beidio â gwneud, gallai'r gwaith beryglu'ch ardystiad organig a'ch taliadau Glastir Organig.
- Gellid dod â chontractau Glastir Organig i ben ar dir lle bydd y Corff Rheoli Organig neu Taliadau Gwledig Cymru (RPW) wedi gweld eich bod wedi torri rheol neu amod. Efallai y bydd gofyn ichi ad-dalu'r cyfan, ynghyd â llog, fydd wedi'i dalu ichi a'ch cosbi am orddatgan, gan ddibynnu ar y rheswm am y tramgwydd sy'n arwain at ddod â'ch contract i ben.
- Mae'n bwysig nodi, os bydd eich tir sydd o dan gontract yn colli'i ardystiad organig yn ystod oes y contract, y gallech gael eich cosbi neu gellid gofyn ichi ad-dalu'r arian.

## Adran D - Rheolau Glastir Organig

- Bydd eich taliadau blynyddol yn seiliedig ar arwynebedd y categori defnydd tir fydd wedi'i gymeradwyo ar eich cais ac a fydd wedi'i ddilysu yn unol â thystysgrif wreiddiol eich OCB.
- Rhaid ichi gyflwyno tystysgrif a rhestr tir dilys gan eich OCB i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Ebrill neu os wedi hynny, o fewn 30 diwrnod cyn y daw'r dystysgrif ddiwethaf i ben.
- Rhaid cydymffurfio â'r safonau Trawsgydymffurfio.
- Rhaid ichi gyflwyno Ffurflen Cais Sengl (SAF) bob blwyddyn erbyn 15 Mai i hawlio taliad ar gaeau cymwys o dan y contract Glastir Organig. Mae'n bwysig cofio bod yn rhaid ichi gofnodi'r holl dir amaethyddol ac anamaethyddol ar eich daliad bob blwyddyn ar eich SAF. Rhaid ichi hawlio taliadau erbyn 15 Mai fan hwyraf bob blwyddyn rhag cael eich cosbi am hawlio'n hwyr.
- Peidiwch â gwneud datganiad ffug neu gamarweiniol na rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, boed yn fwriadol neu drwy esgeulustod.
- Rhaid ichi ganiatáu i'ch holl dir gael ei archwilio ar adeg y rhoddir gwybod ichi amdano gan Lywodraeth Cymru neu berson awdurdodedig arall a rhoi i Lywodraeth Cymru neu'r person awdurdodedig unrhyw ddogfen neu gofnod y gallai ofyn amdani/amdano.
- Rhaid ichi roi gwybod i Lywodraeth Cymru o fewn 30 diwrnod ar ôl y digwyddiad am unrhyw newid allai effeithio ar eich contract neu dir sy'n rhan o contract Glastir Organig.

## **Tir mewn cynlluniau eraill**

Mae manylion y berthynas rhwng Glastir Organig a thir sydd o dan gynlluniau eraill wedi'u nodi isod.

### **Ffermio Organig a'r berthynas â Chynllun Taliad Sylfaenol (BPS) newydd y Polisi Amaethyddol Cyffredin a Gwyrddu**

Bydd unrhyw dir organig ardystiedig, gan gynnwys tir sy'n cael ei 'droi'n organig' yn gymwys yn awtomatig am y taliad gwyrddu heb orfod bodloni'r gofynion gwyrddu, cyn belled â'i fod wedi'i ardystio gyda chorff achrededig. Mae hyn yn golygu nad oes gofyn cynnal Ardal â Ffocws Ecolegol (AFfE) na thyfu amrywiaeth o gnydau arno. Bydd unrhyw dir confensiynol sydd gennych yn gorfod ateb y gofynion gwyrddu hyn.

### **Glastir Organig ac elfennau eraill Glastir**

Mae tir sy'n rhan o gynllun Glastir Organig yn gydnaws ag elfennau eraill Glastir, heblaw Tir Comin Glastir a Choetir Glastir. Fodd bynnag, nid yw caeau y cynhelir Opsiynau 30 a 32 Glastir Sylfaenol arnynt yn gymwys am Gyfradd Dalu 1 Glastir Organig.

Os ydych yn ystyried troi tir sydd yn Glastir Organig yn goetir heb stoc (naill ai'n annibynnol neu gyda chymorth arall), yna mae'n bwysig cofio y daw cymorth Glastir Organig 2015 i ben ar y tir hwnnw ac y bydd gofyn ichi ad-dalu unrhyw daliadau fydd wedi'u gwneud ichi.

Mae Glastir Creu Coetir a rhai opsiynau penodol o fewn Glastir Sylfaenol, Glastir Uwch a Glastir Rheoli Coetir yn gofyn ichi gadw stoc allan o goetir.

## Adran E – Ceisio am Glastir Organig

Dylech wneud cais am gontract Glastir Organig 2015 trwy RPW Ar-lein. Bydd y cyfnod ymgeisio'n dechrau ar 1 Hydref 2014 ac yn cau ganol nos 29 Hydref 2014.

Os ydych eisoes wedi cofrestru gydag RPW Ar-lein, i weld ffurflen gais Glastir Organig ewch i adran Ceisiadau a Hawliadau eich cyfrif RPW Ar-lein. Os nad ydych wedi cofrestru eto a heb gael cod defnyddio, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 **cyn gynted ag y medrwch**. Y rhif ffôn yw 0300 062 5004 (ar agor 8.30 i 17.00 ddydd Llun i ddydd Iau a 8.30 i 16.30 ddydd Gwener).

Cewch gyfarwyddiadau gam wrth gam ar sut i lenwi'r cais ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru/rpwarlein](http://www.llyw.cymru/rpwarlein).

Os bydd angen help ychwanegol arnoch i lenwi'r cais ar-lein neu os nad ydych yn gallu ymgeisio ar-lein, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid, a fyd yn gallu cynnig help digidol ichi, **cyn gynted ag y medrwch**.

**Pwysig:** Os caiff contract Glastir Organig ei gynnig ichi, rhaid ichi gyflwyno tystysgrif a Rhestr Tir gwreiddiol eich Corff Rheoli Organig erbyn 30 Ebrill 2015. Byddwn yn gwrthod tystysgrifau a rhestrau tir fydd yn cyrraedd ar ôl y dyddiad hwnnw a byddwn yn tynnu'r cynnig o gontract yn ôl.

### Y broses ddewis

Os na fydd gennym ddigon o gyllideb i allu cynnig contract i bob ymgeisydd, bydd Llywodraeth Cymru'n dilyn proses ddewis gystadleuol i benderfynu pa ymgeiswyr i gynnig contract iddynt.

Mae nifer o fapiau wedi'u cynhyrchu sy'n dangos ble mae amcanion Glastir Organig yn fwyaf perthnasol. Byddwn yn asesu gallu'ch fferm chi i wireddu amcanion Glastir sydd wedi'u nodi ar y mapiau a byddwn yn rhoi sgôr iddi fydd yn adlewyrchu ei gallu i wireddu'r amcanion hynny.

Caiff yr holl ffermydd eu rhoi yn nhrefn eu sgôr a chaiff y ffermydd sydd â'r sgôr uchaf flaenoriaeth i gael contract.

Cewch fwy o fanylion y system sgorio yn:

<https://llyw.cymru/ffermio-a-chefn-gwlad>

Gallai'r broses sgorio newid yn y dyfodol i adlewyrchu newid yn ein polisïau. Hynny yw, gallai cais sydd wedi cael sgôr isel eleni fod yn llwyddiannus yn y dyfodol pe bai'n blaenoriaethau'n newid.

Byddwn yn rhoi gwybod ichi a fydd eich cais yn llwyddiannus gan restru'r amcanion a ddefnyddiwyd i gyfrif sgôr eich fferm.

## **Cynnig contract Glastir Organig**

Os bydd eich cais Glastir Organig yn llwyddiannus, bydd gofyn ichi lenwi ffurflen derbyn cynnig contract ar-lein. Bydd honno'n rhestru'r holl amodau a thelerau. Wedyn caiff y contract ei gynnig yn ffurfiol ichi ar-lein.

Bydd angen ichi dderbyn y cynnig ar-lein, printio'r contract ac anfon copi o'r gwreiddiol wedi'i lofnodi i Taliadau Gwledig Cymru, y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid, o fewn 14 diwrnod ar ôl cael y cynnig. Byddwn yn gwrthod ffurflenni derbyn sy'n ein cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn a byddwn yn tynnu'r cynnig o gontract yn ôl.

Os byddwch yn penderfynu ar ôl cael eich dewis nad ydych am gario ymlaen â'ch cais neu os na fydd contract wedi'i lofnodi yn ein cyrraedd mewn pryd, ni fyddwch yn cael gwneud cais am Glastir Organig am 2 flynedd arall.

Os byddwch yn dewis gadael y contract cyn diwedd tymor llawn y contract (5 mlynedd), bydd gofyn ichi dalu'r holl arian a fydd wedi'i dalu ichi o dan gontract Glastir Organig, ynghyd â'r llog, yn ôl.



Gan ddibynnu ar gyhoeddi Rheoliadau newydd y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig a newidiadau i Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 o ganlyniad i newid y rheoliadau, gallai contract Glastir Organig gael ei derfynu ddiwedd 2020.

## Adran F – Taliadau

### Taliadau sy'n seiliedig ar arwynebedd

Mae tair cyfradd dalu o dan Glastir Organig, bob un ohonynt yn seiliedig ar arwynebedd, i helpu ffermwyr i droi'n organig ac i helpu eu cynnal os ydynt eisoes yn organig. Gweler Tabl 1 isod. Caiff pob cae sy'n rhan o contract Glastir Organig ei gymeradwyo ar gyfer 5 mlynedd o daliadau gan ddibynnu ar ei statws, hynny yw, p'un a yw'n troi'n organig neu eisoes yn organig ar ddechrau'r cynllun ar 1 Ionawr 2015.

**Tabl 1: Taliadau Arwynebedd Glastir Organig a'r Cyfraniad at Gostau Ardystio**

	Troï'n Organig		Cynnal Organig	Costau Ardystio Blynyddol*
	Bl'dd 1 – 2	Bl'dd 3 - 5	Bl'dd 1 – 5	
<b>Cyfradd Dalu 1</b>	£600 / ha	£400 / ha	£400 / ha	£80 / ha
<b>Cyfradd Dalu 2</b>	£130 / ha	£65 / ha	£65 / ha	£10 / ha
<b>Cyfradd Dalu 3</b>	£15 / ha	£15 / ha	£15 / ha	£3 / ha

- Bydd cap o £500 y contract y flwyddyn ar gostau ardystio.

Yr arwynebedd o dan y contract y telir taliad Glastir Organig arno fydd arwynebedd y cae cyfan fel ag y mae wedi'i nodi ar System Adnabod Parseli Tir (LPIS) Llywodraeth Cymru, gan gymryd i ystyriaeth y darnau anghymwys canlynol o fewn y cae.

### Darnau Anghymwys

- Adeiladau a Buarthau
- Arwynebau Caled
- Pyllau/Afonydd a nentydd

- Heolydd
- Sgri/Cnycau (brigiadau) /Meini

Bydd gofyn i ymgeiswyr roi manylion unrhyw ddarnau anghymwys ar eu cais ar gyfer unrhyw gaeau newydd sy'n cael eu hychwanegu at y cynllun.

### **Faint o dir sy'n cael bod yn rhan o contract Glastir Organig:**

- Rhaid i o leiaf 3ha o dir cymwys (cyfanswm cyfraddau talu 1, 2 a 3) ddod o dan y contract.
- Bydd cap o 400ha (Cyfanswm cyfraddau talu 1, 2 a 3) ar bob contract.
- Ni chaiff mwy nag 20ha o dir yn y contract fod yn dir cyfradd dalu 1.

## **Diffinio'r Cyfraddau Talu**

### **Cyfradd Dalu 1**

- Er mwyn gallu cael Cyfradd Dalu 1, rhaid bod gennych hyd at 20 hectar o dir o dan eich contract Glastir Organig sy'n cael ei ddefnyddio fel rhan o gylchdro ar gyfer cynhyrchu cnydau garddwriaeth.
- Rhaid ichi sicrhau bod o leiaf 40% o'ch holl dir sy'n gymwys am Gyfradd Dalu 1 yn tyfu cnwd garddwriaeth bob blwyddyn.
- Rhaid ichi sicrhau bod yr holl dir y telir Cyfradd Dalu 1 arno o dan gnwd garddwriaeth o leiaf unwaith yn ystod cyfnod 5 mlynedd y contract.
- Gwnewch yn siŵr fod ffrwythau meddal a pherllannau masnachol yn gymwys am Gyfradd Dalu 1 trwy ddarllen rhestr cnydau cymwys Llywodraeth Cymru bob blwyddyn. Caiff y codau cnydau eu diweddarau bob blwyddyn mewn pryd ichi lenwi'ch Ffurflen Cais Sengl (SAF).

Nid yw caeau lle cynhelir Opsiynau 30 a 32 Glastir Sylfaenol arnynt yn gymwys am Gyfradd Dalu 1 o dan Glastir Organig.

## **Cyfradd Dalu 2**

- Bydd tir sydd o dan ffin yr ucheldir agored ac sydd gan fwyaf yn amaethyddol gynhyrchiol yn gymwys am Gyfradd Dalu 2.
- Caeau â llai na 50% o'r cae yn goetir pori, gorgors, gweundir arfordirol a llawr gwlad, morfa heli neu redyn/prysgwydd.

## **Cyfradd Dalu 3**

Bydd cais Glastir Organig ar-lein yn nodi bod ucheldir heb ei amgáu a thir comin sy'n cael ei bori gan un porwr yn gymwys am Gyfradd Dalu 3.

- Ucheldir agored; sef tir sy'n uwch na'r tir amaethyddol sydd wedi'i amgáu. Mae'n agored ei natur ac nid yw wedi cael ei wella at ddiben amaethyddol.
- Tir Comin sy'n cael ei bori a chi yw'r unig borwr cofrestredig (Tir Comin ag Un Porwr).
- Caeau â 50% neu fwy o'r cae yn goetir pori, gorgors, gweundir arfordirol a llawr gwlad, morfa heli neu redyn/prysgwydd.

Mae'n bwysig iawn cofio y gallech gael eich cosbi'n ariannol os gwelir eich bod wedi rhoi tir yn y categori anghywir.

Mae'n bwysig iawn cofio hefyd os gwelir bod ymgeiswyr wedi creu amodau artiffisial i ddylanwadu ar eu cais neu'r taliadau neu sydd wedi rhoi darnau mawr o dir yn y categorïau anghywir, y gallai'r contract gael ei derfynu ac y byddai'n rhaid ichi ad-dalu'r holl daliadau a wnaed ynghyd â'r llog.

## **Pwy sy'n gymwys am gyfraddau talu 'troi'n organig'**

I fedru cael 2 flynedd o daliadau 'troi'n organig', rhaid i gae sy'n rhan o gontract Glastir Organig fod wedi dechrau cael ei droi'n organig rhwng 2 Ionawr 2014 ac 1 Ionawr 2015 yn gynwysedig.

## **Pwy sy'n gymwys am gyfraddau talu 'cynnal organig'.**

- Bydd parseli tir y dechreuwyd eu troi'n organig cyn 2 Ionawr 2014 yn gymwys am gyfradd dalu cynnal organig yn unig dros oes contract Glastir Organig.
- Tir y talwyd taliadau organig arno o fewn 3 blynedd cyn dechrau contract Glastir Organig ar 1 Ionawr 2015 yn gymwys. (Bydd tir o dan contract Ffermio Organig neu contract Cynllun Troi at Ffermio Organig ym mlynnyddoedd 2012, 2013 neu 2014).

## **Costau ardystio Corff Rheoli Organig?**

Caiff cyfraniad blynyddol ar gyfer costau ardystio ei wneud yn unol â Thabl 1 uchod am oes y contract. Bydd cap o £500 ar gyfer costau ardystio fesul contract y flwyddyn.

## **Beth sy'n rhaid imi ei wneud i gael fy nhalu?**

Rhaid gwneud y canlynol:

- Byddwch wedi llofnodi contract Glastir Organig ac yn cadw at ofynion y cynllun gan gynnwys y safonau Trawsgydymffurfio
- Byddwch yn hawlio Glastir Organig ar eich Ffurflen Cais Sengl (SAF) bob blwyddyn. Rhaid i'r SAF ein cyrraedd erbyn 15 Mai fan hwyraf bob blwyddyn rhag ichi gael eich cosbi am hawlio'n hwyr
- Byddwch yn datgan yr holl dir amaethyddol ac anamaethyddol sydd ar eich daliad ar ffurflen y Cais Sengl
- Peidiwch â gwneud datganiad ffug neu gamarweiniol na rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol
- Peidiwch â chreu amodau ffug i gael y taliadau (er enghraifft, rhannu caeau er mwyn cael y gyfradd dalu uwch)
- Byddwch yn caniatáu i'ch holl dir gael ei archwilio unrhyw bryd ar ôl cael rhybudd gan Lywodraeth Cymru neu berson awdurdodedig arall a byddwch

yn rhoi i Lywodraeth Cymru neu'r person awdurdodedig unrhyw ddogfen neu gofnod y gallai ofyn amdani/amdano

- Byddwch yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru o fewn 30 diwrnod os bydd newidiadau sy'n effeithio ar eich contract neu dir sy'n rhan o'ch contract Glastir Organig
- Bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud ei holl daliadau trwy drosglwyddiad banc (BACS). Os ydych eisoed yn derbyn cymorth ariannol, rydym yn eich talu trwy'r system hon, felly nid oes unrhyw beth arall ichi ei wneud. Telir taliadau Glastir mewn punnoedd.
- Os ydych yn gwsmer newydd i'r Adran, bydd gofyn ichi lenwi ffurflen BACS. Gofynnwch i'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid am gopi trwy ffonio 0300 062 5004
- Os na fyddwch wedi hawlio ar gae sydd o dan contract ar eich Cais Sengl (SAF), caiff y cae ei dynnu o contract Glastir Organig ac ni chewch daliad amdano. Bydd gofyn ichi dalu taliadau a wnaed yn ôl a llog.

Ar ôl dilysu a chadarnhau'r uchod, bydd y taliadau'n dechrau ym mis Chwefror 2016.

## **Adran G – Newid Contract**

### **Trosglwyddo neu Werthu Tir sydd o dan Contract**

Wrth arwyddo'ch Contract Glastir, rydych yn gwneud ymrwymiad am 5 mlynedd. Os byddwch yn penderfynu gwerthu neu drosglwyddo'ch tir neu ran ohono yn ystod 5 mlynedd eich contract, efallai y bydd gofyn i chi ad-dalu'r arian rydych eisoes wedi'i gael neu gael eich cosbi'n ariannol.

Os ydych am drosglwyddo contract Glastir i feddiannydd newydd, rhaid cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Os ydy'r meddiannydd newydd yn dewis cymryd eich ymrwymiad chi oddi arnoch a bod y tir yn dal i fodloni'r amodau gofynnol ar gyfer ymuno â Glastir Organig, rhaid i'r meddiannydd newydd barhau â'r ymrwymiad ar y tir hwnnw am weddill cyfnod y contract. Dylid gofalu fod y meddiannydd newydd yn gwybod am yr ymrwymiad Glastir cyn cytuno i drosglwyddo'r tir dan sylw.

Ar ôl trosglwyddo neu werthu rhan o'r tir, rhaid i unrhyw dir rydych wedi'i gadw ac sy'n dal yn rhan o'ch contract Glastir gwreiddiol barhau i fodloni amodau gofynnol Glastir. Os nad yw, bydd gofyn i chi ad-dalu pob taliad a wnaed ar y tir hwnnw.

Os ydych yn trosglwyddo neu'n gwerthu unrhyw dir sy'n rhan o'ch Contract Glastir, yna rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru trwy lythyr o fewn 30 diwrnod ar ôl i hynny ddigwydd. O beidio â rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru, gallech gael eich cosbi.

Os byddwch yn trosglwyddo neu'n gwerthu tir sydd o dan contract a bod Llywodraeth Cymru'n credu bod amcanion amgylcheddol Glastir wedi'u taseilio o'r herwydd, gallai'r contract gael ei derfynu ac efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu pob taliad ynghyd â'r llog.

## **Beth sy'n digwydd os bydda i'n rhoi'r gorau i ffermio'n organig cyn diwedd fy nghontract?**

Os rhowch chi'r gorau i ffermio'ch tir yn organig cyn diwedd eich contract, bydd Llywodraeth Cymru'n gofyn ichi ad-dalu pob taliad Glastir Organig a wnaed ichi ar y tir dan sylw, ynghyd â llog.

- Gofynnir ichi hefyd ad-dalu taliadau a llog ar dir o dan gontract na fydd yn para wedi'i gofrestru gydag OCB am oes y contract.
- Ni chewch daliad os ydych yn ei hawlio heb dystysgrif a Rhestr Tir dilys gan Gorff Rheoli Organig (OCB).

## **Cael Rhagor o Dir yn ystod Cyfnod y Contract**

Os ydych yn cael tir ar ôl dyddiad dechrau'ch contract, bydd gofyn ichi wneud cais i'r tir hwnnw gael bod yn rhan o'ch contract Glastir Organig.

## **Newid y Tir a Gofyn i'n Hysbysu am Newidiadau i'r Tir**

Rhaid i chi roi gwybod i Lywodraeth Cymru am newidiadau i'ch caeau o fewn 30 diwrnod ar ôl i'r newid ddigwydd.

Gallai'r newidiadau hynny gynnwys:

- Cofrestru caeau nad ydynt wedi'u cofrestru gydag IACS o'r blaen (h.y. caeau heb eu cofnodi ar y Ffurflen Gais Sengl (SAF))
- Rhannu caeau yn barhaol
- Uno caeau yn barhaol
- Newid ffiniau caeau
- Newid nodweddion parhaol caeau .

Hefyd, rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru o fewn y terfyn o 30 diwrnod ar ôl iddo ddigwydd os ydy meddianwyr y tir yn newid gan gynnwys perchennog newydd neu denantiaeth newydd.

Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am y newidiadau hyn ar y *Ffurflen Gais Cynnal Caeau (FM)*. Holwch eich Canolfan Gyswilt i Gwsmeriaid am gopi ac anfonwch hi ati cyn pen 30 diwrnod ar ôl i'r newid ddigwydd.

### **Newid i'r Ddeddfwriaeth (gan gynnwys Dehongliadau Newydd)**

Mae Rheoliadau Ewrop yn cael eu newid o dro i dro. Bydd yn rhaid i chi gydymffurfio â'r newidiadau hynny ar ôl i Lywodraeth Cymru eich hysbysu amdanyn nhw.

### **Newid Rheolau'r Cynllun**

Efallai weithiau, bydd angen newid eich contract os bydd newidiadau'n cael eu gwneud i reolau'r cynllun. Er enghraifft, efallai y bydd angen diweddarau'r amodau rheoli yn sgil ymchwil wyddonol newydd, newid rheolau'r cynllun yn sgil newidiadau i Gynllun Datblygu Gwledig Cymru neu bennu cyfraddau talu newydd. Byddwn yn cyhoeddi'r newidiadau yn Gwlad ar wefan Llywodraeth Cymru ([www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)) a lle bo gofyn, yn ysgrifennu atoch chi.



## Adran H: Rheolaeth Lwyr

Un o amodau'r cynllun yw bod gennych reolaeth lwyr ar y tir am 5 mlynedd lawn y contract er mwyn ichi allu cyflawni holl ymrwymïadau'r cynllun.

Os penderfynir nad oes gennych y rheolaeth lwyr ofynnol, caiff y tir ei dynnu o'r contract a bydd yn rhaid i chi ad-dalu unrhyw arian sydd wedi'i dalu i chi mewn cysylltiad â'r tir hwnnw, ac o bosibl cewch gosb ariannol.

Mae Rheolaeth Lwyr fel arfer yn golygu:

- Bydd y tir yn eiddo ichi ac o dan eich meddiant
- Tenant â chytundeb tenantiaeth o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995, Tenantiaeth Busnes Fferm neu Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986
- Trwydded bori

O dan rai amgylchiadau, ystyrir mai'r landlord sydd â'r rheolaeth lwyr os ceir amodau addas yn y denantiaeth i sicrhau bod ymrwymïadau contract Glastir yn cael eu cyflawni.

Eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn gallu cyflawni'ch ymrwymïadau o dan y contract am y cyfnod 5 mlynedd lawn. Os na allwch wneud, mae'n debygol y bydd yn rhaid i chi ad-dalu pob taliad fydd wedi'i wneud i chi.

Os ydych am gynnwys tir sydd â Thenantiaeth Amaethyddol Lawn (o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986) neu Denantiaeth Busnes Fferm (o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995), eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau nad yw'ch cytundeb tenantiaeth yn eich rhwystro rhag cyflawni pob agwedd ar eich contract Glastir. Os daw'ch cytundeb tenantiaeth i ben cyn diwedd 5 mlynedd lawn y contract, bydd angen gwarant landlord amoch.

Os ydych am gynnwys tir sydd â thenantiaeth lafar, eich cyfrifoldeb chi yw cael ffurflen gwarant landlord gan eich landlord. Os nad ydych yn gallu cael gwarant landlord, ni ddylech gynnwys y caeau hyn yn eich cais.

Cynhwyswch yn unig dir rydych yn berchen arno a thir rydych yn ei rentu allan os oes gennych reolaeth lwyr arno (h.y. bod cymalau addas yn eich cytundeb tenantiaeth). Os nad oes gennych reolaeth lwyr, dylech gynnwys y caeau hynny yn eich cais.

### **Perchen-Ddeiliad**

Os mai chi yw perchen-ddeiliad y tir, bydd y tir yn debygol o fod o dan eich rheolaeth lwyr chi.

Os oes rhywun yn pori'ch tir o dan drwydded bori, darllenwch y paragraffau o dan Drwyddedau Pori.

### **Tenantiaeth o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 neu Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986**

Os ydych yn denant â Thenantiaeth Busnes Fferm (FBT) o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 neu denantiaeth o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol (AHA) 1986, mae'n debygol y bydd gennych y rheolaeth ar y tir sydd ei angen arnoch i allu cyflawni holl ymrwymadau'r contract.

Bydd ambell gytundeb yn gwahardd y tenant rhag ymuno â chynlluniau amaeth-amgylcheddol neu efallai'n ei gwneud yn anodd neu'n anymarferol iddo ymuno â Glastir. Mae'n bwysig eich bod yn gofalu na fydd ymuno â Glastir yn torri amodau'ch tenantiaeth.

O dan rai amgylchiadau, ystyrir mai'r landlord sydd â'r rheolaeth lwyr os ceir amodau addas yn y denantiaeth i sicrhau bod ymrwymadau contract Glastir yn cael eu cyflawni. O dan yr amgylchiadau hynny, ni fydd y tenant yn gymwys am Glastir.

## Tenantiaethau â llai na 5 mlynedd ar ôl neu sydd â Chymal Terfynu

Os ydy'ch tenantiaeth yn cynnwys cymal terfynu neu ei bod yn dod i ben cyn diwedd 5 mlynedd eich Contract Glastir (er bod disgwyl iddi gael ei hestyn neu ei hadnewyddu), ni chaiff y tir hwnnw fod yn rhan o Contract Glastir oni bai bod y landlord yn cytuno i ysgwyddo'r ymrwymiad pan ddaw'r denantiaeth i ben. Indemniad neu Warrant y Landlord yw'r enw ar hyn.

### **Gwarant/Indemniad Landlord**

Cytundeb rhyngoch chi a'ch landlord yw indemniad/gwarant landlord sy'n datgan bod y landlord yn cytuno i ysgwyddo contract Glastir y tir rhent ar ddiwedd eich tenantiaeth.

Bydd gofyn i chi gyflwyno gwarant eich landlord gyda'ch cais am contract Glastir.

Mae enghraifft o ffurflen gwarant y landlord wedi'i gynnwys yn Atodiad 2 i'ch helpu. Ar ôl ei arwyddo, bydd y gwarant yn rhwymo mewn cyfraith ac rydym yn cynghori'r ddau barti felly i ofyn cyngor proffesiynol cyfreithiol annibynnol cyn arwyddo cytundeb o'r fath.

Os bydd eich landlord yn cytuno i arwyddo gwarant, bydd ymrwymiad eich contract Glastir chi ar gyfer y tir rhent hwn yn cael ei drosglwyddo iddo pan ddaw'ch tenantiaeth i ben. Unwaith y caiff yr ymrwymiad ei drosglwyddo, cyfrifoldeb eich landlord fydd sicrhau bod gofynion y cynllun yn cael eu cyflawni tan ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich landlord yn llofnodi ac yn ysgwyddo'r contract Glastir pan ddaw'ch tenantiaeth ar gyfer y tir hwnnw i ben. Os na fydd y landlord wedi ysgwyddo'r ymrwymiad ar gyfer y tir rhent, yna byddwn yn gorfod gofyn i chi ad-dalu'r arian rydych wedi'i dderbyn mewn cysylltiad â'r tir hwnnw. Cofiwch, ni dderbyniwn warrant landlord ar gyfer tir nad yw'n bodloni'r amodau ar gyfer ymuno â'r cynllun (e.e. o leiaf 3 hectar o dir). Ni chaiff felly fod yn rhan o'r Contract Glastir.

Os oes gennych denantiaeth fydd yn para dros gyfnod 5 mlynedd eich contract Glastir ond bod eich landlord yn penderfynu cymryd y tir oddi arnoch cyn diwedd eich contract Glastir, bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r arian sydd wedi'i dalu i chi oni bai

bod eich landlord neu'r tenant newydd yn cytuno i barhau ag ymrwymïadau'r contract. Mae'n bwysig felly mai dim ond tir y gallwch gadarnhau fydd o dan eich rheolaeth lwy'r chi neu dir y mae gennych warant ar ei gyfer gan eich landlord, ddylai ddod o dan y cynllun.

### **Ystyriaethau i'r Landlord a'r Tenant**

Os bydd tenant am ymuno â chontract Glastir ond bod llai na 5 mlynedd o'r denantiaeth ar ôl, dylai ystyried naill ai:

- Cael gwarant gan y landlord; neu
- Gofyn am estyniad i'r denantiaeth er mwyn iddi gwmpasu cyfnod 5 mlynedd lawn contract Glastir.

Os na fydd y landlord am roi gwarant na chynnig tenantiaeth hirach i gwmpasu cyfnod 5 mlynedd lawn y contract Glastir, bydd y tir hwn yn anghymwys a rhaid peidio â'i gynnwys yn eich contract.

Os bydd y landlord yn cytuno i roi gwarant, mae'n bwysig iddo ddeall unwaith y daw'r tir yn ôl o dan ei reolaeth, mai ef fydd yn gyfrifol am yr holl ymrwymïadau, gan gynnwys y cosbau neu ad-daliadau y bydd yn rhaid eu gwneud yn sgil torri amodau'r cynllun neu am orddatgan. Bydd hyn yn cynnwys tramgwyddau y sylwir arnyn nhw ar ôl cymryd y contract, hyd yn oed os mai'r cyn-denat oedd yn gyfrifol amdanynt.

### **'Hawliau' Eraill ar Dir**

Dylech drafod eich cais arfaethedig gydag unrhyw bartïon eraill sydd â hawliau cynnal chwaraeon neu hawliau eraill ar y tir os oes posibilrwydd y gallai'r hawliau hynny effeithio ar ymrwymïadau'r contract. Bryd hynny, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gennych reolaeth lwy'r ar y tir a'ch bod yn gallu cyflawni holl ymrwymïadau'r contract.

## **Trwyddedau Pori**

### **Trwyddedwr (y sawl sy'n rhoi'r drwydded bori)**

Os mai chi yw'r trwyddedwr, mae'n debygol bod gennych ddigon o reolaeth ar y tir i chi allu ei gynnwys yn eich contract Glastir. Pan ddaw'r tir hwnnw o dan eich contract, chi fydd yn gyfrifol am ofalu nad yw'r trwyddedai (y porwr) yn torri'ch ymrwymadau o dan y contract gan mai o dan eich rheolaeth lwyr chi y mae'r tir.

### **Trwyddedai (y porwr)**

Os oes gennych hawl i bori tir trwy drwydded bori, ni chewch roi'r tir hwnnw yn eich contract Glastir chi gan nad oes gennych y rheolaeth angenrheidiol ar y tir.

## **Mwy o Wybodaeth**

Mae'r esboniadau yn yr adran hon ond yn rhoi darlun cyffredinol o'r pwnc rheolaeth, a hynny dim ond o safbwynt Glastir. Nid yw'n ystyried agweddau eraill a allai effeithio ar benderfyniadau unigolion. Os oes gennych bryderon neu gwestiynau am eich sefyllfa bersonol chi a'ch rheolaeth chi ar y tir, dylech fynd ar ofyn cyngor proffesiynol. Cewch fwy o wybodaeth am feddiannu tir yn y llyfryn *Meddiannaeth Tir Glastir a Threfniadau Pori* a gynhyrchwyd gan y Grŵp Meddiannaeth Tir o dan nawdd Llywodraeth Cymru. Mae copi ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

## **Adran I – Archwiliadau a Chofnodion**

Mae Llywodraeth Cymru'n gorfod gwneud yn siŵr bod ffermwyr yn cadw at reolau'r cynllun Glastir, gan gynnwys y safonau Trawsgydymffurfio. Bydd yn gwneud hynny trwy archwiliadau fferm a defnyddio'r Systemau Lleoli Global a lluniau o'r awyr a chan loeren.

### **Archwiliadau Fferm**

Efallai y bydd angen i swyddogion archwilio gyfrif a chadarnhau nifer yr anifeiliaid ar eich fferm a chadarnhau manylion y tir a chywirdeb dogfennau a chofnodion. Pan fydd angen archwilio anifeiliaid, efallai bydd yn rhaid archwilio'r fuches neu'r ddiadell gyfan. Bydd disgwyl i chi grynhoi'r anifeiliaid i le cyfleus a gwneud yn siŵr bod llafur a chyfleusterau digonol ar gael i'w trin.

Gellir cynnal archwiliadau unrhyw adeg o'r flwyddyn ac archwilir yr holl ymrwymadau y bydd modd eu harchwilio adeg yr ymweliad. Bydd Llywodraeth Cymru a'r corff gorfodi'n gwneud eu gorau glas i aflonyddu cyn lleied â phosib arnoch ond mae rhai archwiliadau'n gorfod cael eu cynnal heb rybudd. Gall archwiliadau gael eu cynnal fwy nag unwaith mewn blwyddyn.

Os byddwch yn gwrthod caniatáu archwiliad neu'n rhwystro'r archwilydd neu'n peidio â rhoi cymorth rhesymol iddo, fe allech golli'ch taliad a chael eich erlyn.

### **Cadw Cofnodion**

Rhaid i chi gadw'r holl gofnodion a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch i gadarnhau eich bod wedi rhoi gwybodaeth gyflawn a chywir i ni a'ch bod wedi cadw at eich ymrwymadau.

Bydd gofyn ichi roi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am eich ymrwymiad Glastir Organig a hynny o fewn y cyfnod a bennir gan Lywodraeth Cymru.

Bydd gofyn ichi ddarparu i Lywodraeth Cymru, ei phersonau â chaniatâd a'i hasiantwyr, gofnodion, cyfrifon, derbynebaw a gwybodaeth arall gan gynnwys cyswllt â data cyfrifiadur sy'n ymwneud â'ch ymrwymadau Glastir Organig, rhoi'r hawl i Lywodraeth Cymru gymryd dogfennau neu gofnod neu i wneud copïau neu godi darnau ohonyn nhw.

## **ADRAN J - COSBAU**

Bydd ffermwyr yn cael eu cosbi am orddatgan neu danddatgan tir, am dorri rheolau'r cynllun ac am beidio â bodloni'r safonau trawsgydymffurfio.

### **Tanddatgan**

Os na fyddwch yn datgan holl dir amaethyddol eich daliad ar y Ffurflen Cais Sengl (yr holl dir rydych yn berchen arno a'r tir sydd gennych ar rent ac nid dim ond y tir sy'n dod o dan Glastir e.e. coetir/coedwigaeth, traciau, buarthau, arwynebau caled ac ati), gallai'ch taliadau Cynllun Datblygu Gwledig a Chynllun Taliad Sengl gael eu lleihau.

### **Gorddatgan**

Os gwelir bod arwynebedd sydd wedi'i ddatgan ar gyfer Glastir ar eich Ffurflen Cais Sengl (SAF) yn fwy na'r hyn sydd wedi'i weld mewn archwiliad, cewch eich cosbi am orddatgan. Cyfrifir y gosb gan ddefnyddio'r arwynebedd a gafodd ei ddatgan ar y SAF sy'n derbyn yr un gyfradd dalu (y cyfeirir atynt fel grwpiau cnydau).

### **Torri'r Contract**

Cynhelir archwiliadau gweinyddol ac ar y fferm i weld a ydych yn torri contract Glastir ac os gwelir eich bod, cewch wybod trwy lythyr. Lle gwelir eich bod wedi torri'r contract, byddwn yn lleihau a/neu'n atal eich taliadau gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol, mawr, parhaol ac ailadroddus oedd y tramgwydd gan ei gymhwyso i daliadau'r blynyddoedd blaenorol.

Os bydd Llywodraeth Cymru'n credu bod y tramgwydd mor ddifrifol nad oes modd ei gywiro, gallai derfynu'ch Contract. Mewn sefyllfaoedd difrifol iawn, gallai olygu hefyd eich gwahardd rhag ymuno â chynllun Amaeth-amgylcheddol arall am hyd at ddwy flynedd.



Mae Llywodraeth Cymru'n asesu tramgwyddau yn ôl safonau dilysadwy sy'n cyfateb i'r amodau ar gyfer ymuno â'r cynllun. Mae matrices wedi'i lunio i benderfynu ar lefel y gosb i'w rhoi. Mae'r matrices cosbi a'r safonau dilysadwy i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ([www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)).

### **Torri'r safonau Trawsgydymffurfio**

Eich cyfrifoldeb chi yw bodloni'r holl safonau Trawsgydymffurfio am y flwyddyn galendr lawn ar hyd oes eich Contract. Os na fyddwch yn bodloni'r Gofynion Rheoli Statudol neu'r safonau Cadw Tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da, boed yn fwriadol neu drwy esgeulustod, gallech golli'ch taliad Glastir am flwyddyn neu fwy. Wrth benderfynu o faint y caiff eich taliad ei leihau, byddwn yn ystyried pa mor fawr, difrifol, parhaol ac ailadroddus y bu'r achos o anghydymffurfio.

### **Ad-dalu Taliadau**

Gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'i bwerau i'ch cael i ad-dalu taliadau os na fyddwch wedi cwblhau prosiect a gafodd grant ac os nad yw'r cais wedi cydymffurfio ag amodau a thelerau Glastir Organig.

Mae rheidrwydd ar Lywodraeth Cymru i sicrhau'ch bod yn cadw at reolau Glastir Organig. Caiff archwiliadau eu cynnal i gadarnhau bod yr wybodaeth rydych wedi'i rhoi inni wrth hawlio taliadau ac mewn dogfennau ategol yn gywir. Edrychir hefyd bod yr holl ymrwymadau wedi'u cyflawni, er enghraifft bod gwaith wedi'i wneud yn unol â'r hawliad a gymeradwywyd.

## Adran K- Y Drefn Apelio

Mae'r broses apelio yng Nghymru yn cynnig trefn apelio annibynnol i chi os ydych yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi dod i benderfyniad cywir yn ôl rheolau Glastir.

Mae dau gam i'r broses apelio ffurfiol:

- Cam 1: pennaeth y Swyddfa Ranbarthol leol i adolygu'r achos;
- Cam 2: Panel Apelio Annibynnol i adolygu'r achos (os bydd y ffermwr yn anhapus â'r penderfyniad yng Ngham 1). Bydd y Panel Annibynnol yn gwneud argymhelliad i'r Dirprwy Weinidog dros Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd a fydd wedyn yn penderfynu'n derfynol ar y mater.

Daw'r broses apelio i ben pan gaiff penderfyniad y Gweinidog ei gyhoeddi. Nid oes tâl am gam cyntaf y broses ond codir tâl ar gyfer yr ail gam - £50 am wrandawriad ysgrifenedig a £100 am wrandawriad llafar. Bydd hwn yn cael ei dalu'n ôl i'r apeliwr os bydd ail gam y broses yn llwyddiannus neu'n rhannol llwyddiannus.

Rhaid i chi apelio i'ch Swyddfa Ranbarthol leol cyn pen 60 diwrnod ar ôl derbyn penderfyniad a allai effeithio ar eich taliad.

Cewch fwy o fanylion y broses apelio gan eich Swyddfa Ranbarthol.

## Y Drefn Gwyno

Byddwn yn delio â chwynion o dan God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gwynion.

Cewch fwy o wybodaeth am sut i wneud cwyn gan eich Swyddfa Ranbarthol.

Mae croeso i chi ysgrifennu at unrhyw Aelod o'r Cynulliad am eich cwyn a hefyd at: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pen-coed, CF35 5LJ.

## **Adran L - Deddf Diogelu Data 1998: Hysbysiad Prosesu Teg**

Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar ffurflen gais Glastir neu unrhyw ddogfen arall a ddefnyddir mewn cysylltiad â'ch cais i ymuno â chynlluniau Glastir, neu wybodaeth sy'n cael ei chreu neu ei chael o ganlyniad i geisiadau o'r fath. Bydd Llywodraeth Cymru ymhlith pethau eraill yn rhannu peth gwybodaeth ag asiantaethau a chyrrff cyhoeddus eraill ac yn darparu peth i'r cyhoedd ei gweld.

Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio gan fwyaf i brosesu ac asesu'ch cais am Glastir Organig. Fe gaiff Llywodraeth Cymru (neu ei hasiantwyr) ddefnyddio'r wybodaeth hefyd at bwrpasau eraill, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau a'i dyletswyddau o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd a'i hymrwymiaadau amgylcheddol statudol.

### **Rhesymau dros Rannu Data Personol**

Defnyddir yr wybodaeth a geir gan ymgeiswyr at y dibenion canlynol:

- Bydd y partneriaid yn croeswrio gwybodaeth er mwyn sicrhau nad oes neb yn torri rheolau'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol y maent yn eu gweinyddu
- Gweinyddu ceisiadau
- Cynhyrchu mapiau sy'n dangos y tir sy'n dod o dan y cytundebau
- Llunio adroddiadau o ddata o wahanol ffynonellau, ar gyfer eu cyhoeddi ar dudalennau gwefan Llywodraeth Cymru
- Paratoi crynodebau ystadegol
- Rhoi gwybodaeth i weinidogion iddynt allu gwneud penderfyniadau ynghylch newid polisïau ac ariannu
- Cysylltu â pherchnogion / defnyddwyr tir mewn argyfwng e.e. rheoli clefydau a rheoli tramgwyddau
- Diogelu hawliau ffermwyr mewn cadwraeth tir ac i ateb ymholiadau ynghylch ariannu

- Datgelu gwybodaeth i awdurdodau rheoleiddio, fel Tollau ei Mawrhydi, Cyllid y Wlad a'r heddlu, lle bo lles y cyhoedd yn gofyn am hynny
- Cyhoeddi gwybodaeth ac ymateb i geisiadau am wybodaeth. Bydd yr holl wybodaeth y bydd Llywodraeth Cymru'n ei chadw at ddiben prosesu cais yn cael ei rheoli ganddi yn unol â'i hymrwymiaadau a'i dyletswyddau o dan:
- Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Diogelu Data 1998
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- Rheoliad (EC) rhif 908/2014 y Comisiwn.

Gall aelod o'r cyhoedd felly ofyn am gael gweld eich gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ryddhau'r wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch, wrth ymateb i gais o'r fath. Bob tro, wrth wneud, bydd yn cadw at y canllawiau yng Nghod Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

Mae copi o'r Cod i'w weld ar y rhyngwrwd yn:

[www.cymru.gov.uk/cyhoeddiadau](http://www.cymru.gov.uk/cyhoeddiadau)

[www.wales.gov.uk/publications](http://www.wales.gov.uk/publications)

Yn ôl Rheoliad (EC) rhif 908/2014 y Comisiwn, rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth bob blwyddyn am y personau cyfreithiol sy'n derbyn taliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Cyhoeddir taliadau pawb fydd wedi cael mwy na €1,250 mewn unrhyw flwyddyn. Cyhoeddir yr wybodaeth ar 30 Ebrill bob blwyddyn ar wefan chwiladwy a bydd yn cynnwys enw'r busnes a thref agosaf y sawl fydd wedi cael grant gyda manylion y symiau a'r cynlluniau y talwyd y grantiau trwyddynt. Ni chyhoeddir manylion y rheini fydd wedi cael llai na €1,250 mewn blwyddyn. Bydd yr wybodaeth ar gael ar wefan DEFRA: <http://cap-payments.defra.gov.uk/>

## **Hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998**

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn rhoi hawliau penodol i unigolion mewn perthynas â'r data personol a gedwir amdanynt. Dyma rai enghreifftiau o'r hawliau hyn, er nad yw hon yn rhestr gyflawn:

- Bod yr wybodaeth bersonol sydd gennym amdanynt yn cael ei phrosesu'n deg a chyfreithlon;
- Yr hawl i gael copïau o'r wybodaeth bersonol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanynt, er y gall Llywodraeth Cymru wrthod gwneud hynny weithiau;
- Yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i rwystro Llywodraeth Cymru rhag prosesu gwybodaeth bersonol os byddai gwneud hynny'n gwneud niwed neu'n achosi gofid;
- Yr hawl o dan rai amgylchiadau i ofyn am gywiro gwybodaeth anghywir.

Bydd hawl gan unigolion hefyd i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn cadw golwg ar Ddeddf Diogelu Data 1998, farnu a fyddwn, wrth brosesu'ch gwybodaeth bersonol, yn debygol o gadw at amodau'r Ddeddf.

Nid aiff yr wybodaeth y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd oni bai bod rheswm da dros wneud hynny (e.e. pe bai clefyd yn mynd ar led). Os bydd rheswm da, bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud yn siwr bod yr wybodaeth yn dal i gael ei phrosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

### **Gofyn am fwy o Wybodaeth**

Am ragor o wybodaeth ynghylch yr wybodaeth fydd yn cael ei chasglu a sut y bydd yn cael ei defnyddio, os oes gennych bryderon ynghylch cywirdeb eich data personol neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru.

## **Atodiad 1 – Cnydau sy'n gymwys ar gyfer Cyfradd Dalu 1**

Afalau  
Artisiôc  
Asbaragws  
Barf-yr-afr  
Basil  
Berw – salad  
Berw dŵr  
Berwr y gerddi  
Betys  
Bresych a bresych eraill  
Bysedd y blaidd pêr  
Cennin Pedr  
Cucumerau  
Dil  
Eirin / Eirin Gwyrdd / Eirin Duon Bach  
Eirin Mair /Cwrens coch/du/gwyn  
Erfin / Maip / Teiffon  
Garddwriaeth – cynhyrchu cymysg  
Gellyg  
Ffa – gwyrdd / Ffrengig / Dringo  
Ffacbys  
Ffawlys  
Ffenigl  
Ffenigrig  
Grawnwin  
Gwenith y gors  
Hadau Blodau'r Haul  
Hopys  
Letus  
Liwsern / maglys  
Llysiâu'r Cwlwm  
Maro / Pwmpen / Squash / Courgette  
Mefus  
Melonau  
Moron  
Oregano  
Pannas  
Persli  
Planhigyn Wy  
Pupys  
Pŷs (dringo ac eraill)

Radis  
Riwbob  
Rhosod  
Rhuddygl y meirch  
Saets  
Saffrwm  
Sbinaets  
Scorzonera  
Seleriac  
Sicori  
Tafod yr ŷch  
Tatws  
Tiwlip  
Tomatos  
Winwns / Cennin / Sialots / Garlleg

## Atodiad 2: Enghraifft o Indemniad

### Pan fydd angen Gweithred Ymrwymo ac Indemniad rhwng Tenant a Landlord

Fel arfer, er mwyn bod yn gymwys am Glastir Organig, mae gofyn bod gan denant reolaeth lwyr ar gyfran y tir/yr holl dir gafodd ei gynnwys yn ei gais a hynny am gyfnod llawn ei contract Glastir.

**Os na fydd gennych reolaeth lwyr am gyfnod llawn y contract ar gyfran y tir/yr holl dir sydd wedi'i gynnwys yn eich cais, rhaid cyflwyno Gweithred Ymrwymo ac Indemniad wedi'i harwyddo gennych chi a chan eich landlord fel rhan o'ch cais. Gweler ENGHRAIFFT o Weithred isod.**

**Pwysig: Os bydd angen i chi gyflwyno Gweithred Ymrwymo ac Indemniad, darllenwch Ganllaw Cyffredinol Glastir a Chanllaw Meddiannaeth Tir Glastir cyn gwneud hynny.**

Bydd gofyn i chi gyflwyno'ch Gweithred gyda'ch cais Glastir. Cadwch gopi o'ch ffurflen Indemniad hefyd ar gyfer eich ffeiliau.

### ENGHRAIFFT O WEITHRED YMRWYMO AC INDEMNIAD

Gwneir y weithred hon ar y \_\_\_\_\_ dydd o \_\_\_\_\_ rhwng  
(1) (enw llawn) o (cyfeiriad gohebu) (y "Landlord")  
(2)

Cyfeirnod y Cwsmer (CRN), os oes ganddo un: \_\_\_\_\_  
(2) (enw llawn ) o (cyfeiriad post) (y "Tenant") a

Cyfeirnod y Cwsmer (CRN): \_\_\_\_\_

### YN GYMAINT AG MAI

(1) Y Landlord yw deiliad y rhydd-ddaliad neu sydd â'r rhan fwyaf o'r budd yn y tir neu diroedd a adwaenir wrth yr enw \_\_\_\_\_ (cyfeiriad neu ddisgrifiad o'r eiddo â'r denantiaeth) (yr "Eiddo") a ddisgrifir yn fanylach yn Nhabl 1 y ddogfen hon.

(2) Mae'r Landlord (wedi arwyddo Tenantiaeth dyddiedig \_\_\_\_\_ yn bwriadu arwyddo Tenantiaeth) – dileer yn ôl y gofyn ("y Denantiaeth") mewn perthynas â'r Eiddo â'r Denantiaeth

**(3) Mae'r tenant am arwyddo contract ('y Contract') â Llywodraeth Cymru o dan y cynllun Glastir sy'n cael ei drefnu gan Lywodraeth Cymru ("Glastir") mewn perthynas â thir ar y safle sy'n destun y Denantiaeth ("Tir y Contract").**



MAE'R WEITHRED HON YN TYSTIO'R CANLYNOL

(1) Mae'r landlord wedi darllen a deall Llyfrynnau Esboniadol Glastir Sylfaenol, gan gynnwys y Canllaw Technegol, sy'n ymwneud â'r cynllun y mae'r tenant yn gwneud cais amdano.

(2) Os daw rheolaeth y Tenant ar Dir y Contract, neu ran ohono, i ben, y landlord fydd wedi hynny â rheolaeth ar Dir y Contract neu ba ran bynnag ohono na fydd o dan reolaeth y Tenant, a hynny am weddill y contract.

(3) Tra bo rhydd-ddaliad Tir y Contract ym meddiant y Landlord, mae'r Landlord yn ymrwymo i'r Tenant, pan ddaw'r Denantiaeth neu unrhyw ran ohoni i ben a'i phasio'n ôl i'r Landlord, i gadw Tir y Contract yn unol ag amodau Glastir Sylfaenol a sicrhau bod holl ymrwymadau'r Contract mewn cysylltiad â Thir y Contract yn cael eu cyflawni'n briodol tan y daw'r Contract a wnaed rhwng y Tenant a Llywodraeth Cymru o dan y cynllun Glastir i ben.

(4) Bydd y Landlord yn indemneiddio'r Tenant rhag colledion, costau, taliadau a'r treuliau y gallai'r Tenant orfod eu hysgwyddo, yn enwedig mewn cysylltiad ag ad-dalu arian i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i dorri Contract o'r fath yn sgil dod â'r Denantiaeth neu unrhyw ran ohoni i ben a throsglwyddo'r rheolaeth amdani i'r Landlord.

TYSTIR BOD bod pob parti'r weithred hon wedi cyflawni'r weithred hon ym mhresenoldeb tystion a'i darparu ar y diwrnod a'r flwyddyn a nodwyd.

Wedi'i llofnodi fel gweithred gan

y sawl a enwir uchod (landlord) \_\_\_\_\_ (llofnod y landlord)

ym mhresenoldeb \_\_\_\_\_ (llofnod y tyst)

\_\_\_\_\_ (enw'r tyst)

(cyfeiriad y tyst)

\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

Dydd: \_\_\_\_\_ Blwyddyn: \_\_\_\_\_

Wedi'i harwyddo fel gweithred gan

y sawl a enwir uchod (tenant) \_\_\_\_\_ (llofnod y tenant)

ym mhresenoldeb \_\_\_\_\_ (llofnod y tyst)

\_\_\_\_\_ (enw'r tyst)

(cyfeiriad y tyst)

\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

Dydd: \_\_\_\_\_ Blwyddyn: \_\_\_\_\_



## **Sut ydw i'n cymhwyso fel Ffermwr Actif?**

Bydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth ategol ofynnol erbyn 15 Mai bob blwyddyn rydych chi'n gweithredu'r gwasanaethau.

### **Byddwch yn gymwys:**

Os ydych chi'n ffermwr sy'n ymgymryd â gweithgareddau ffermio a rheoli tir ar dir cymwys sydd ar gael i chi ei ddefnyddio/o dan eich rheolaeth ac nad yw'ch busnes yn gweithredu unrhyw un o'r canlynol: gwasanaethau rheilffordd: meysydd awyr, gwaith dŵr, gwasanaethau eiddo tiriog a reolir ar sail ffi neu gontract, tir chwaraeon a hamdden parhaol.

### **Efallai na fyddwch yn gymwys:**

Os ydych chi'n gweithredu unrhyw un o'r canlynol: gwasanaethau rheilffordd: meysydd awyr, gwaith dŵr, gwasanaethau eiddo tiriog a reolir ar sail ffi neu gontract, tir chwaraeon a hamdden parhaol ac na allwch chi fodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- Bod cyfanswm y Taliadau Uniongyrchol (ar gyfer 2015, defnyddiwch Gynllun Taliad Sengl 2014) yn dod i o leiaf 5% o'ch derbynebau o weithgareddau anamaethyddol. Er mwyn bodloni'r prawf hwn, bydd angen i chi gyflwyno llythyr gan gyfrifydd siartredig yn cadarnhau ei fod wedi archwilio'ch cyfrifon a'ch bod yn bodloni'r prawf hwn.
- Bod o leiaf draean o'ch holl dderbynebau yn dderbynebau o weithgareddau amaethyddol. Er mwyn bodloni'r prawf hwn, bydd angen i chi gyflwyno llythyr gan gyfrifydd siartredig yn cadarnhau ei fod wedi archwilio'ch cyfrifon a'ch bod yn bodloni'r prawf hwn.
- Eich bod wedi cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau (neu eich bod yn elusen gofrestredig) a bod y prif fusnes yn weithgaredd amaethyddol. Ar gyfer y prawf hwn, dylech chi gyflwyno'ch erthyglau cymdeithasu.

Bydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth ategol ofynnol erbyn 15 Mai bob blwyddyn rydych chi'n gweithredu'r gwasanaethau fel y gall o leiaf un o'r meini prawf hyn gael ei ddilysu, ac fe'ch cynghorir i gael cyngor cyfreithiol a/neu ariannol annibynnol i sicrhau y gallwch chi fodloni'r amodau hyn. Os na fyddwch chi'n datgan eich bod yn gweithredu un o'r gwasanaethau hyn a bod ein rheolaethau'n datgelu eich bod yn gwneud hynny, byddech yn colli'ch holl hawliadau ac unrhyw daliadau a wnaed.

### **Tir sy'n cael ei gadw'n naturiol mewn cyflwr addas i'w drin a'i bori**

Os ystyrir bod mwy na 50% o'ch tir amaethyddol yn "cael ei gadw'n naturiol mewn cyflwr addas i'w drin a'i bori" (yng Nghymru, mae hyn yn golygu morfeydd heli a thwyni tywod arfordirol), efallai na fyddwch chi'n gymwys i fod yn ffermwr actif oni bai eich bod yn:

- ymgymryd ag o leiaf y lefel isaf dderbyniol o bori (0.01-0.05 o unedau da byw yr hectar y flwyddyn)
- cynnal a chadw ffensys cadw stoc a darparu d ŵ r ffres i dda byw, neu reoli planhigion ymledol, niweidiol
- defnyddio'r tir sy'n cael ei gadw'n naturiol ar gyfer gweithgaredd amaethyddol.